Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cwm Banwy

**Llangadfan**
**Y TrallwngPowys**
**SY21 0NW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Cwm Banwy

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Cwm Banwy |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 50 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 40 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 10 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 10.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 26.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 64.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/05/2024 |
| Arolygiad cyntaf yr ysgol ers ei hagor ym Medi 2020 | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae hapusrwydd, bodlonrwydd a mwynhad llwyr y disgyblion yn eu dysgu yn nodweddion trawiadol o ethos a darpariaeth Ysgol Cwm Banwy sy'n treiddio trwy bob agwedd o waith yr ysgol. Mae ymddygiad y disgyblion yn wych ac maent yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion gyda pharch a chwrteisi hynod ganmoladwy. Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gryf ac mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel wrth eu gwaith a'u chwarae. Maent yn gyffrous wrth siarad am eu profiadau ac yn hynod falch o'u hysgol.

Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau iaith a digidol. Maent yn cymhwyso eu medrau yn hyderus ar draws y cwricwlwm ac ar draws ystod eang o gyd-destunau diddorol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn gryfder amlwg. Mae disgyblion yn ymroi'n frwdfrydig i'r profiadau cydlynus a dychmygus a gânt ac maent yn gwneud cynnydd arbennig o gryf yn yr agwedd hon o'u haddysg.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cyffrous sy'n tanio dychymyg ac ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn sefydlu perthynas waith gefnogol a chynhyrchiol â'r disgyblion ac mae'r ardaloedd dysgu yn fannau byrlymus a llawn chwilfrydedd. Ar draws yr ysgol, mae'r addysgu'n gryf ac mae athrawon yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu effeithiol sy'n hybu cymhelliant a chynnydd disgyblion. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gyflawni tasgau a chyflwyno eu gwaith.

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol a chadarn sy'n dyheu am y profiadau dysgu a'r lles gorau posibl ar gyfer bob disgybl. Cefnogir y pennaeth gan dîm o staff ymroddgar ac effeithiol sy'n ymdrechu'n ddiwyd i sicrhau bod disgyblion yn mwynhau eu profiadau dysgu ac yn gwneud y cynnydd gorau posibl. Mae'r llywodraethwyr yn diwallu eu rolau a'u cyfrifoldebau'n fedrus ac maent yn eiriolwyr diffuant dros yr ysgol. Maent yn darparu cefnogaeth bwrpasol a diflino i arweinwyr a staff ynghyd â sicrhau bod yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i hadnoddau.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gwblhau eu tasgau a sut i gyflwyno eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â:

- Datblygu medrau rhifedd disgyblion trwy ddarparu profiadau dilys cyfoethog
- Cynllunio ysgol gyfan ar gyfer datblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn cymhwyso eu medrau yn hyderus ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar oedolion a'u cyfoedion ac yn parchu safbwyntiau a barnau ei gilydd. Mae medrau llafar y rhan fwyaf yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarth dysgu sylfaen yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio tôn llais ac iaith briodol. Er enghraifft, maent yn defnyddio geirfa berthnasol wrth drafod sawl eliffant fydd ei angen i gydbwyso dinosor ar y glorian. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn siarad yn fedrus ac yn gwneud sylwadau aeddfed am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Maent yn mynegi a chyfleu profiadau, syniadau a gwybodaeth yn glir mewn cyd-destunau ehangach. Er enghraifft, maent yn cynnal trafodaeth ddosbarth i gynnig eu barn ar hawl plant i brotestio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod nifer gynyddol o lythrennau ac yn dechrau adeiladu geiriau yn gywir. Maent yn dechrau defnyddio ystod briodol o strategaethau i ddarllen ac i ganfod ystyr mewn testun. Erbyn Blwyddyn 1 a 2, mae disgyblion yn darllen darnau mwy estynedig gyda rhuglder cynyddol ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio terminoleg berthnasol wrth drafod nodweddion testunau llenyddol mwy cymhleth yn hyderus. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu hoff awduron ac yn cynnig rhesymau dilys i gefnogi eu dewis.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus. Maent yn gwneud dewis dychmygus o eirfa ac yn sillafu'r mwyafrif o eiriau o fewn eu profiad yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn dechrau defnyddio paragraffau yn fedrus wrth ysgrifennu testunau fwyfwy estynedig. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu eitem newyddion hynod ddiddorol am y diwrnod y daeth dinosor i ymweld â'r ysgol. Maent yn adeiladu ar y medrau hyn yn dda dros amser. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gywir mewn amrywiol gyd-destunau gan ystyried y darllenydd yn gelfydd. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu dyddiadur i bersonoli hanes William Kamkwamba gan gyfleu teimladau personol fel rhwystredigaethau ac ofnau yn hynod effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu dealltwriaeth gynnar o werth rhif ac yn cymhwyso'r ddealltwriaeth yn fedrus. Er enghraifft, maent yn adnabod bondiau rhifau 10 a 100 yn hyderus. Mae disgyblion yn adeiladu ar y medrau hyn ac, erbyn cyrraedd brig yr ysgol, maent yn datrys problemau'n fedrus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol. Ar draws yr ysgol, mae'r modd y mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar

draws llawer o feysydd y cwricwlwm yn gryfder amlwg. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn cymhwyso eu dealltwriaeth o arwynebedd, perimedr a chylchedd yn gymwys wrth ddylunio castell ar gyfer Owain Glyndŵr.

Dros amser, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion yn y dosbarth dysgu sylfaen yn creu cyflwyniadau digidol diddorol i gefnogi eu dysgu am gartrefi yn Affrica. Maent yn mewnfudo lluniau priodol ac yn ychwanegu testun a newid ei liw yn bwrpasol. Mae disgyblion yn adeiladu ar eu medrau'n gyson ac, erbyn brig yr ysgol, maent yn creu gwefannau cynhwysfawr a defnyddiol sy'n cyflwyno, er enghraifft, gwybodaeth am y corff.

Mae bron bob disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol at weithgareddau corfforol. Maent yn mwynhau'r sesiynau addysg gorfforol ac yn ymroi'n bwrpasol i ddatblygu eu medrau. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu rheolaeth gynyddol dros siâp y corff a'u symudiadau wrth greu dawns dinosoriaid. Mae'r ysgol gyfan yn mwynhau dawnsio ac yn ymarfer yn egnïol yn y sesiynau Chwarter Chwysu. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn gweithio gydag arlunydd adnabyddus i greu darluniau dychmygus sy'n cyfuno paentiadau a rhwygiadau papur.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar, hapus a gofalgar. Mae disgyblion yn gyfeillgar a chwrtais ac yn ymfalchïo yn eu hysgol. Maent yn gwerthfawrogi'r profiadau a'r cyfleoedd a gânt ac yn teimlo'n ddiogel a chysurus o fewn yr amgylchedd cartrefol a chlyd. Mae disgyblion a'u rhieni yn croesawu'r gefnogaeth gynhwysfawr y mae staff yn ei darparu ac maent yn teimlo bod staff yn gwrando ar unrhyw bryderon sydd ganddynt ac yn ymateb yn amserol, lle bo'n briodol.

Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at eu profiadau dysgu yn hynod ganmoladwy. Maent yn frwdfrydig am eu gweithgareddau ac yn ymateb i heriau newydd gydag egni a chwilfrydedd heintus. Maent yn cydweithio'n effeithiol â chyfoedion mewn parau a grwpiau bach ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig wrth ddatrys problemau a chwblhau tasgau. Maent yn ymdrin â'i gilydd gyda pharch a chwrteisi ac mae ymddygiad y disgyblion, bron heb eithriad, yn wych ymhob agwedd o'u gwaith a'u chwarae. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i adborth gan staff ac, ar y cyfan, yn gweithredu ar yr adborth ac yn gwneud gwelliannau gwerthfawr i'w gwaith.

Mae disgyblion yn ysgwyddo cyfrifoldebau a rolau arwain yn yr ysgol yn ymroddgar a chydwybodol. Maent yn cymryd y rolau hyn o ddifrif a gydag aeddfedrwydd ac yn datblygu medrau cynllunio, cyfathrebu a threfnu defnyddiol, o ganlyniad. Mae'r 'Criw Tanio'r Ddraig' yn hybu diwylliant Cymreig ac ymwybyddiaeth disgyblion o artistiaid Cymraeg yn bwrpasol wrth drefnu cerddoriaeth i'w chwarae yn ystod amseroedd egwyl. Mae disgyblion yn cyfrannu'n ddiwyd at ddiogelwch y safle trwy gynnal awdit iechyd a diogelwch tymhorol gydag aelodau o'r corff llywodraethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd bod yn ddinesydd moesegol ac egwyddorol. Er enghraifft, drwy astudio hanes Betty Campbell a'r heriau a wynebodd, maent yn dysgu am sefyllfaoedd anghyfiawn. O

ganlyniad, maent yn trafod materion yn ymwneud â thegwch, cydraddoldeb a hawliau dynol yn aeddfed.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o sut mae dewisiadau da o ran bwyta’n iach ac ymarfer corff yn effeithio ar eu hiechyd. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod eu gwersi, er enghraifft wrth ymchwilio i effaith gwahanol gampau ar gyfradd y galon. Maent yn ymroddgar a brwdfrydig wrth gynrychioli’r ysgol mewn cystadlaethau ar draws ystod o chwaraeon fel hoci, pêl-droed a rhedeg traws gwlad ac maent yn ymroi o’u gorau ar bob achlysur.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o sut i aros yn ddiogel wrth weithio ar-lein. Mae ganddynt ymwybyddiaeth briodol o ba raglenni ac apiau sy’n addas iddynt eu defnyddio ac at bwy i droi petai dieithryn yn ceisio cysylltu â nhw dros gyfryngau digidol. Mae disgyblion yn creu animeiddiadau digidol hwyliog i rannu negeseuon pwysig ynghylch sut i weithio a dysgu’n ddiogel ar-lein gyda’u cyfoedion.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff wedi cydweithio â rhieni a’r disgyblion i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm yr ysgol sy’n seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu hwyliog ac ysgogol sy’n adeiladu ar awch cynhenid y disgyblion i ddysgu. Maent yn darparu cwricwlwm cytbwys a chyffrous sy’n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Rhoddir sylw da i’r cyd-destun lleol wrth gynllunio gweithgareddau cyfoethog a diddorol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn perchnogi’r cwricwlwm ac yn ymgolli’n llwyr yn eu dysgu.

Mae staff yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan yn symbylus ac yn ddeniadol ac yn hybu’r dysgu yn llwyddiannus. Mae’r disgyblion ieuengaf, er enghraifft, yn datblygu eu medrau llafar yn bwrpasol wrth drafod nodweddion creaduriaid a’u didoli yn yr ardal ddŵr. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn datblygu eu medrau mapio a gwyddonol wrth ymchwilio i  berthnasoedd bwydo yn yr ardd goffa.

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson gryf ar draws yr ysgol. Mae athrawon a chymorthyddion yn angerddol a chydwybodol ac yn eiriolwyr diflino dros y disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob disgybl ac yn dyheu am y lles, safonau a chynnydd gorau iddynt. Mae staff wedi sefydlu perthynas weithio effeithiol â'r disgyblion ac maent yn adnabod eu hanghenion yn dda. Maent yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion yn effeithiol. Maent yn defnyddio ystod dda o ddulliau holi treiddgar sy’n adalw dysgu blaenorol ac yn adnabod y camau nesaf yn y dysgu yn bwrpasol. Mae rhediad da i’r gweithgareddau ac mae’r ardaloedd dysgu yn fannau llawn egni a bwrlwm. Mae staff yn cydweithio’n bwrpasol i lunio themâu a gweithgareddau sy’n ennyn diddordeb a thanio dychymyg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn cynnig adborth cyson ar waith y disgyblion ac, o ganlyniad, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o sut  maent wedi llwyddo a ble gallent wella eu gwaith.

Mae staff yn fodelau rôl ieithyddol cadarn ac mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn gryf. Mae staff yn hybu adnabyddiaeth y disgyblion o eirfa a phatrymau iaith cyffredin yn gyson trwy ailadrodd storïau a chwedlau, er enghraifft. Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau’n bwrpasol ar draws ystod o gyd-

destunau. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth dysgu sylfaen yn defnyddio geirfa ddychmygus ac anturus wrth gyflwyno bwletin newyddion i adrodd ar ddigwyddiadau lleol pwysig.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddarganfod a'i ddysgu ar ddechrau eu themâu ac wrth i syniadau newydd ddod i'r amlwg yn ystod y gwaith thematig. O ganlyniad, mae gan y disgyblion ddiddordeb amlwg yn eu profiadau ac maent yn ymroi'n gyffrous i'w tasgau. Er hyn, at ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gyflawni tasgau a chyflwyno eu gwaith.

Gwneir defnydd effeithiol o'r ardal leol ac ymwelwyr i'r ysgol i ehangu profiadau'r disgyblion. Mae ffermwr lleol, er enghraifft, yn mynychu'r ysgol i siarad â'r disgyblion am ei waith ac mae'r disgyblion yn ymweld â fferm gyfagos i atgyfnerthu eu gwaith thematig. Mae disgyblion yn ymweld ag eglwysi Sant Cadfan a Santes Erfyl er mwyn ymchwilio i  batrymau ffenestri lliw i gefnogi eu gwaith prosiect yn ôl yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn ddoeth er mwyn ymateb i anghenion dysgu a lles disgyblion unigol a llywio cyfeiriad y dysgu yn bwrpasol. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn rhannu gwybodaeth gynhwysfawr yn ymwneud â chynnydd disgyblion ynghyd â'r camau nesaf yn eu dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Cwm Banwy yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad arbennig i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol, hapus a gweithgar sydd ag ymdeimlad hyfryd o fod yn rhan o un teulu mawr a chlòs. Mae staff wedi sefydlu perthynas waith effeithiol â'r disgyblion ac maent yn cefnogi disgyblion i wneud eu gorau ymhob agwedd o waith yr ysgol. Mae staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac mae rhieni yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gânt.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn gryfder. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn, o ganlyniad. Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cynhwysfawr ar gyfer monitro ac olrhain lles a chynnydd disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth bellach yn gynnar a darparu rhaglenni cefnogi sy'n diwallu anghenion penodol disgyblion yn dda. Mae'r rhaglenni yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer hybu lles emosiynol disgyblion ynghyd â datblygu eu medrau rhifedd a llythrennedd. Mae staff yn cefnogi'r disgyblion yn gelfydd drwy'r rhaglenni hyn. Maent yn canmol a chymell disgyblion yn fedrus ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at hybu hunanhyder a gwydnwch y disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol ag asiantaethau allanol fel y therapydd iaith a lleferydd a'r gwasanaeth seicoleg addysg, pan fydd angen. Mae'r bartneriaeth gynhyrchiol rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gryfder nodedig. Mae rhieni a'r disgyblion yn rhan allweddol o'r trefniadau ar gyfer monitro cynnydd a gosod targedau ar gyfer y camau nesaf yn y dysgu. Mae staff yn cydweithio'n agos â'r ddarpariaeth cyn ysgol sydd wedi ei lleoli ar y safle. Mae hyn yn galluogi'r staff i rannu gwybodaeth bwysig am hoffterau ac anghenion disgyblion cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol a chynllunio o flaen llaw er mwyn diwallu eu hanghenion yn briodol.

Mae staff yn trefnu ystod eang o brofiadau a gweithgareddau sy'n hybu iechyd corfforol a lles emosiynol disgyblion yn bwrpasol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd i fod allan yn yr awyr iach ac uniaethu â byd natur wrth iddynt ofalu am yr ardd goffa a thyfu llysiau yn y llecynnau pwrpasol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o gyfleoedd i ddisgyblion arwain ar agweddau pwysig o waith yr ysgol. Mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig ac yn diwallu eu cyfrifoldebau'n gydwybodol. Er enghraifft, mae'r llysgenhadon chwaraeon yn arwain gemau a chwaraeon ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn ystod amser cinio. Maent yn meithrin medrau pwysig fel cyfathrebu, empathi a hyrwyddo parch at reolau.

Mae staff yn trefnu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd diddorol i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u treftadaeth, hunaniaeth a'u diwylliant Cymreig. Maent yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn flynyddol ac yn datblygu medrau gwerthfawr wrth drefnu rhan o'r eisteddfod leol trwy eu gwaith thematig. Mae'r ysgol yn hybu Cymreictod trwy annog disgyblion a'u teuluoedd i recordio fideos ohonynt yn canu cân i annog teuluoedd i fynychu'r eisteddfod genedlaethol sy'n cael ei chynnal yn lleol. O ganlyniad, mae disgyblion yn meithrin cariad ac angerdd at yr iaith a thraddodiadau Cymreig.

Darperir cyfleoedd cyson i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion ynghyd â'u hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion egwyddorol. Maent yn deall pwysigrwydd cefnogi pobl eraill ac yn trefnu gweithgareddau llwyddiannus wrth godi arian i elusennau lleol a chenedlaethol. Maent yn mwynhau'r cyfleoedd a gânt i ddysgu am eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth yn naturiol wrth, er enghraifft, drafod yr hawl i brotestio yn erbyn boddi Cwm Celyn. Yn ystod cyfnodau cyd-addoli, mae disgyblion yn myfyrio'n dawel ac yn ystyried pwysigrwydd cael ffrindiau. Maent yn trafod nodweddion ffrind da yn aeddfed ac yn perthnasu hyn â'u gwerthoedd personol a gwerthoedd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hybu presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant cryf o ddiogelu yn treiddio trwy bob agwedd o waith yr ysgol ac mae gan staff ddealltwriaeth drylwyr o weithdrefnau amddiffyn plant. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar barch, ymddiriedaeth a'r dyhead fod bob disgybl yn cael y cyfle i ffynnu. Mae hi wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus â disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned. Mae ymdeimlad cryf o undod wrth iddynt wireddu arwyddair yr ysgol fel eu bod 'gyda'n gilydd yn lliwio'r byd.' Mae'r pennaeth yn arweinydd cydwybodol ac ysbrydoledig ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'i hun ac eraill. Mae hi'n gweithio'n ddiwyd a doeth er mwyn diwallu anghenion y disgyblion a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau wrth gael mwynhad pur o'u profiadau dysgu. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn llwyddiannus ac mae cadw plant yn ddiogel yn flaenoriaeth barhaus. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol.

Cefnogir y pennaeth gan dîm o staff diwyd ac ymroddgar. Maent yn cydweithio'n gydwybodol er mwyn cynllunio a chyflwyno darpariaeth gyffrous sy'n cymell ac ennyn diddordeb y disgyblion. Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau pwrpasol ar gyfer rheoli perfformiad staff ac mae eu targedau datblygu yn cysylltu'n agos â'u hanghenion datblygu personol a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Datblygir pob aelod o staff yn effeithiol gan gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr. Er enghraifft, mae staff wedi bod yn gweithio gydag ysgolion lleol er mwyn cynllunio profiadau dysgu i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am gydberthynas a rhywioldeb. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder staff i gyflwyno'r agweddau hyn ynghyd â chyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu dealltwriaeth a lles disgyblion.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol. Maent yn defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol yn fedrus er mwyn cynllunio camau datblygu'r ysgol. Maent yn craffu ar y dystiolaeth yn ofalus ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a beth sydd angen ei wella. Maent yn llunio cynlluniau gwella sy'n canolbwyntio'n ddeallus ar y meysydd sydd angen eu datblygu ynghyd â mynd i'r afael a blaenoriaethau gwella cenedlaethol. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn rheolaidd ac yn addasu cynlluniau gwella, pan fydd angen. O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau bod meysydd sydd angen eu gwella yn datblygu'n gyflym. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion a'r cyfleoedd i gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm wedi gwella'n sylweddol dros gyfnod byr.

Mae llywodraethwyr yn hynod gefnogol o'r ysgol ac maent yn deall a chyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Maent yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her, ac yn dwyn y pennaeth i gyfrif ar ran y gymuned leol yn eu rôl fel cyfaill beirniadol. Maent yn ymgymryd ag ystod bwrpasol o weithgareddau monitro; er enghraifft, maent yn siarad â disgyblion ac yn craffu ar eu gwaith. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae llywodraethwyr yn gweithio'n agos gyda'r pennaeth i reoli cyllid a monitro cynlluniau gwariant yn drylwyr. Maent yn sicrhau bod unrhyw wariant yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn feddylgar er mwyn cefnogi datblygiad medrau disgyblion yn llwyddiannus. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Rhoddir pwyslais amlwg ar adeiladu partneriaethau gwerthfawr â rhieni a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn weledol iawn yn ei chymuned ac yn cydweithio'n agos â thrigolion lleol. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld â'r siop leol i gyfarfod â rhai o drigolion hŷn yr ardal am sgwrs. Maent hefyd yn eu diddanu trwy ganu carolau amser y Nadolig mewn bwyty cyfagos.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2024